

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 29/10/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Angela Russell  
Iwan Hughes  
Barbara Warren

Thomas Victor Jones  
John Brinley Jones  
Rhian Hughes-Jones  
(Clerc)

Greta Hughes  
Clair Russell

William Roger Jones  
William Penri Jones

## 1. Ymddiheuriadau

Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Rhodri Owen

## 2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Iwan Hughes – Cais Cynllunio Plas Glyn y Weddw

John Brinley Jones – Cais Cynllunio Plas Glyn y Weddw

## 3. Cofnodion 24/09/2018

Derbyn Cofnodion 24/09/2018 yn gywir ac wedi eu arwyddo.

## 4. Unrhyw Fater Brys

- Rali goffa James Trenholme – Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn gohebiaeth yn nodi y bydd y rali yn cael ei gynnal yn ystod noswaith 17-18 Tachwedd 2018.
- Mater Ombwtsman – Cyflwynwyd llythyr gan y gyn Clerc John Harris ynglŷn â materion ombwdsman. Nodwyd nad yw hyn yn fater brys a bydd y Clerc yn edrych i mewn i'r mater.

## 5. Etholiadau

Yn dilyn derbyn dau gais bydd angen cynnal etholiad neu gellir cyfethol. Mae'r ymgeiswyr wedi ei gwybyddu o'r hyn ac wedi darparu gwybodaeth yw cyflwyno i'r pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'r Clerc dderbyn mwy o wybodaeth ynglŷn ag oblygiadau etholiad; Pwy sydd yn gyfrifol am y costau a'r amser i gynnal yr etholiad?

Bydd llythyr yn mynd i'r ddau ymgeisydd i egluro'r sefyllfa.

Bydd y Clerc yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor yn cyfarfod mis Tachwedd.

## 6. Rheoliadau Sefydlog

Mae'r Clerc wedi darparu copïau o ddrafft Rheolau Sefydlog, Rheolau Ariannol, Polisi Iaith ac asesiad risg. Mae'r gwaith yn eithaf swmpus a chytunwyd i drefnu cyfarfod is-bwyllgor i fynd trwy'r rheoliadau i gyd. Bydd y Clerc yn trefnu dyddiad yn fis Tachwedd yn ogystal â ffeindio rheoliadau gwreiddiol Cyngor Cymuned Llanbedrog a'i gyrru allan yn y post i'r holl aelodau.

## 7. Archwiliad BDO

Mae'r BDO wedi gyrru gwybodaeth ymlaen i Rhian Hughes-Jones ac mae wedi ymateb fel y gellir. Mae'r Clerc wedi gosod yr ohebiaeth yn y Neuadd er gwybodaeth i'r gymuned.

Bydd y Clerc yn disgwyl yr adroddiad yn ôl cyn cyfarfod mis Tachwedd fel y gellir adrodd yn ôl.

## 8. Cae Chwarae

Mae'r Clerc wedi gwneud archwiliad ac wedi tynnu lluniau o'r holl offer sydd yno a'i gymharu hefo'r adroddiad diogelwch diweddaraf. Gellir cadarnhau bod cyflwr yr offer sydd yn y cae chwarae yn beryg iawn gan ei fod wedi dirywio. Cytunwyd i waredu'r offer ac eithrio'r siglen a'r cylchdro. Bydd y Clerc yn cysylltu i gael tendr i wneud y gwaith.

Clerc – Rhian Hughes-Jones • [cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com](mailto:cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com) •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Angela Russell

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

## Cofnodion Cyfarfod 29/10/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn llythyr gan Mr Peter Windsor yn cynnig i wneud gwaith yn y cae chwarae i ddatblygu traciau beic i'r ieuencid eu defnyddio. Nodwyd bod rhai o'r aelodau wedi trafod gyda Mr Windsor ynglŷn â'r bwriad. Gyda J.B. Jones yn dangos lluniau fel enghreifftiau i'r pwyllgor. Bydd y gwaith yn cynnwys symud tir a'i siapio i'r siâp a dymunir. Ni fydd unrhyw waith parhaol yn cael ei wneud.

Mae'r Cyngor Cymuned yn ddiolchgar iawn am y cynnig yma ac yn cytuno ein bod yn ei dderbyn. Bydd y Clerc yn cysylltu hefo'r ymgeisydd i gadarnhau hyn.

### 9. Dolen giat Cae Penra Llan

Mae'r giât yn beryg iawn fel y mae yn agor i'r ffordd fawr. Mae'r Clerc wedi gofyn am brisiau i wneud y gwaith ond nid yw wedi derbyn dim eto. Bydd y Clerc yn dilyn i fynnu ar hyn.

### 10. To capel Peniel

Gwybodaeth gan Iwan Hughes – Nodwyd bod cyflwr y to ar Capel Peniel yn beryglus iawn. Mae'n dirywio yn sydyn iawn gyda'r tywydd yn troi bydd angen gwneud gwelliannau i'r adeilad.

Cytunwyd i'r Clerc wybyddu Cyngor Gwynedd am eu pryderon.

### Ceisiadau Cynllunio

#### **C18/0930/38/CC**

Gwaith i dorri a tocio coed

Plas Glyn Y Weddw, Llanbedrog.

**Trosglwyddo i'r Swyddog Coed**

#### **C18/0902/38/LL**

Dymchwel bloc cyfleusterau presennol a chodi bloc cyfleusterau a storfa finiau Newydd.

Bolmynydd Camping Park, Bolmynydd, Llanbedrog.

**Dim Gwrthwynebiad**

#### **C18/0819/38/LL**

Adeiladu estyniad i'r eiddo i greu ystafelloedd llawr cyntaf

Glasfryn Bach, Llanbedrog.

**Dim Gwrthwynebiad**

### Taliadau wedi eu cymeradwyo

**Cyflog y clerch - Rhian Hughes-Jones Mis Hydref 2018      £333.33**

### Taliadau wedi eu derbyn

**Dim**

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 29/10/2018 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog**

## Gohebiaeth

1. **Un Llais Cymru** - Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr – 24ain Medi 2018.
2. **Cyngor Gwynedd** - Cysylltwr Cymunedol Ardal LLŷn
3. **Grwp Te Bach Botwnnog** – Poster Gwybodaeth
4. **Un Llais Cymru** - Cydgrynhoi ac Adolygu Is ddeddfwriaeth Cydgrynhoi Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref.
5. **Cyngor Gwynedd** - Taclo Unigrwydd Mewn Cymunedau
6. **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** - Adolygiad o Arloesi Digidol Llywodraeth Cymru
7. **CYNGOR TREF PORTHMADOG** - wahodd yr Eisteddfod i Lŷn ac Eifionydd yn 2021 neu 2025.
8. **Iechyd Cyhoeddus Cymru** - Canlyniadau Rhaglen Mesur Plant 2016 - 17

## Cais am gyfraniad

1. **Llyfrau llafar Cymru**
2. **Plas Carmel, Anelog** – Adfer hen adeilad capel unigryw.